



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Fwy Cyfartal

- 1: Gwaith teg:** Sicrhau mynediad cyfartal i swyddi gweddus, gan gydnabod gwerth pawb
- 2: Cyfleoedd addysgol:** Galluogi pobl i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth sydd i'w cyflawni
- 3: Cyfranogiad:** Rhoi cyfleoedd cyfartal i bobl gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, i alluogi canlyniadau cyfartal
- 4: Canlyniadau iechyd cyfartal:** Deall achosion a symptomau anghydraddoldebau iechyd, yn cynnwys Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a Cham-drin Domestig yn erbyn Menywod a Thrais Rhywiol





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Fwy Cyfartal

Yn y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol,
diffinnir y nod hwn fel

*“Cymdeithas sy'n galluogi pobl i gyflawni eu potensial ni
waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau (gan gynnwys
eu cefndir a'u hamgylchiadau cymdeithasol-economaidd).”*



Diffinio'r nod

Mae cydraddoldeb yn fater i bawb. Mae tlodi, sy'n gwaethygu yng Nghymru, yn arwain at fwlch amlycach yng nghyfleoedd pobl sy'n cael eu geni i mewn i wahanol gefndiroedd cymdeithasol-economaidd.

Er gwaethaf y cynnydd yn lefelau cyflogaeth, nid yw gwaith o reidrwydd yn arwain at safon bywyd digonol. Hefyd, dywed un o bob pedwar o bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol eu bod yn unig yng Nghymru yn 2017-18; mae bron i dair gwaith yn fwy o bobl anabl yn dweud eu bod yn dioddef o iechyd meddwl gwael na phobl nad ydynt yn anabl, ac mae un o bob tair menyw yng Nghymru'n profi trais corfforol neu rywiol ar ryw adeg yn eu bywydau. Mae'n glir bod angen gwneud llawer mwy o fewn ein sefydliadau ac ar lefel cenedlaethol, a hyn yn golygu mynd tu hwnt i'r dyletswyddau a nodir gan y Ddeddf Cydraddoldeb (2010), a dyletswyddau cydraddoldeb sy'n benodol i Gymru, drwy gymryd camau cadarnhaol i sicrhau bod dyfodol Cymru'n un lle mae gan bobl nid yn unig gyfleoedd cyfartal, ond canlyniadau cyfartal.


Mae gennym i gyd ran i'w chwarae yn y dasg o sicrhau fod pobl yn medru cyflawni eu potensial ni waeth o ble maent yn dod, yn amrywio o sicrhau mynediad i swyddi gweddus drwy waith teg, i fynediad i gyfleoedd addysgol, gan sicrhau cyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn penderfyniadau, a gweithredu ar anghydraddoldebau cymdeithasol-economaidd.



Astudiaethau achos

Drwy gydol y ddogfen byddwch yn dod o hyd i nifer o adroddiadau sy'n berthnasol i wrthrych y pwnc. Os gwelwch yn dda darllenwch y ddolen os welwch chi'r symbol hwn.

4 QUALITY EDUCATION



Diffinio'r nod

Ble i ffocysu eich gweithrediadau wrth gyfrannu at y nod hwn

Sicrhau bod gan bobl fynediad cyfartal i swyddi gweddus, gan gydnabod gwerth pawb.

(Gweler taith tuag at Gymru fwy cyfartal pwnc 1: Gwaith teg)

Galluogi pobl i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth i gyflawni eu potensial.

(Gweler taith tuag at Gymru fwy cyfartal pwnc 2: Cyfleoedd addysgol)

Rhoi i bobl gyfleoedd cyfartal i gymryd rhan mewn gwneud penderfyniadau, i alluogi canlyniadau cyfartal.

(Gweler Taith tuag at Gymru fwy cyfartal 3: Cyfranogiad)

Cefnogi dealltwriaeth o anghydraddoldebau iechyd.

(Gweler taith tuag at Gymru fwy cyfartal pwnc 4: Cydraddoldeb a chanlyniadau iechyd)

Cefnogi dealltwriaeth o bwysigrwydd cefndir ac amgylchiadau cymdeithasol-economaidd pobl yng nghyflawniad eu potensial.

(Pwnc taith ar anghydraddoldeb cymdeithasol-economaidd i gael ei gynnwys yn y cyfnod nesaf)

Gofynion statudol eraill mewn perthynas â'r nod hwn

Mae **Deddf Cydraddoldeb 2010** yn amddiffyn pobl yn gyfreithiol rhag gwahaniaethu yn y gweithle ac mewn cymdeithas ehangach. Disodlwyd deddfau gwrth-wahaniaethu blaenorol pan grewyd un Ddeddf, gan wneud y gyfraith yn haws ei deall a chryfhau amddiffyniad mewn rhai achosion. Mae'n nodi'r gwahanol ffyrdd a ddefnyddir i drin pobl yn anghyfreithlon.

Am wybodaeth a chanllawiau gweler <https://www.gov.uk/guidance/equality-act-2010-guidance>, yn cynnwys canllawiau sy'n berthnasol i Ddyletswydd Cydraddoldeb y sector cyhoeddus.

Bwriad y **Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015** yw gwella'r trefniadau ar gyfer hybu ymwybyddiaeth o, ac atal, amddiffyn, a chynorthwyo dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Darparir dolennau i ganllawiau drwy'r holl ddogfen hon, a gellir dod o hyd i'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol yn <https://gov.wales/national-training-framework-violence-against-women-domestic-abuse-and-sexual-violence-statutory>.



Mae rhai o'r camau a'r gweithredoedd a awgrymir yn y ddogfen hon yn cyd-fynd â'r polisiau a nodir yn y ddeddfwriaeth - camau a gweithrediadau penodol sydd ynghlwm wrth y rhain yw'r rhai a amlygir mewn oren gyda'r symbol 'St'.

Galluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn fwy **tebygol o ddigwydd...**


- Pan fydd amrywiaeth yn cael ei ddathlu.
- Pan fydd pobl yn deall beth a olygir gan greu Cymru fwy cyfartal, a phwysigrwydd trawsdoriadoldeb (sut mae gwahanol agweddau ar wahaniaethu'n gorgyffwrdd/croesdorri).
- Pan fydd sefydliadau'n cydnabod bod ganddynt waith i'w wneud yn y maes hwn yn nhermau cynrychiolaeth staff.
- Pan fydd buddsoddiad mewn cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei gydnabod fel rhywbeth 'sy'n gwneud synnwyr busnes da', nid yn unig fel y peth 'moesol' i'w wneud.
- Pan werthfawrogir bod creu Cymru fwy cyfartal yn effeithio'n gadarnhaol ar y nodau llesiant eraill.



Analluogwyr

Mae cyflawni'r nod hwn yn llai **tebygol o ddigwydd...**

- Pan fydd y gwaith o wella cydraddoldeb yn disgyn yn unig ar y 'tîm cydraddoldeb'.
- Pan fydd cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cael ei weld fel 'rhywbeth braf i'w gael' yn hytrach nag fel rhan hanfodol o fusnes o ddydd i ddydd.
- Pan fydd gwneud unrhyw beth tu hwnt i'r gofyniad cyfreithiol lleiaf yn cael ei weld fel defnydd gwael o adnodd (e.e. gwneud gwybodaeth yn rhywbeth hygyrch).
- Pan fydd cymhlethdod trawsdoriadoldeb (sut mae gwahanol agweddau ar wahaniaethu'n gorgyffwrdd/croesdorri) heb gael ei werthfawrogi.
- Pan na fydd dealltwriaeth o'r cysyniad o fraint.





Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales



Taith tuag at

Gymru Fwy Cyfartal

2: Cyfleoedd addysgol

Galluogi pobl i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth sydd angen eu cyflawni

Diffinio'r mater

Mae gan bobl Cymru hawl i addysg fel y gall pawb, yn arbennig plant a phobl ifanc, gyrraedd eu llawn botensial. Mae cysylltiad clir rhwng statws cymdeithasol-economaidd a chyrhaeddiad ledled y DU. Mae ymgysylltiad â dysgu gydol oes (cyrsiau addysg neu hyfforddiant sy'n berthnasol i swydd) wedi lleihau ers 2013/14, yn cynnwys ymhlith pobl iau (25-34 mlwydd oed). Mae bylchau cyrhaeddiad ymhlith yr oedran gadael ysgol yn parhau ymhlith plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r rhai sy'n gymwys i dderbyn prydau bwyd ysgol am

ddim. Mae rhai grwpiau o blant mewn mwy o berygl o gael eu bwlio nag eraill ac mae dewis pynciau a gyrfaedd yn parhau i ddibynnu ar eu rhyw, gyda merched yn llawer llai tebygol o barhau i astudio gwyddoniaeth a mathemateg ar ôl gadael yr ysgol. Mae bwlio ar sail rhyw yn cael ei dargedu'n bennaf at ferched, tra bo plant sy'n lesbiaidd, hoyw, daurywiol a thrawsrywiol (LGBT), a phlant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd yn fwy tebygol o ddiodef bwlio.

Cafodd 1,121 o blant eu cynorthwyo gan wasanaethau arbenigol cymunedol/allgyrchol VAWDASV yng Nghymru yn 2017/18, a 1,065 o blant o dan 16 mlwydd oed eu cynorthwyo gan ddarpariaeth lloches. Gwelwyd cynnydd o un flwyddyn i'r llall o 14% o blant yn cyrchu gwasanaeth cymorth mewn llochesau, gydag ar gyfartaledd 266 o blant yn cael eu cynorthwyo bob chwarter. Mae yna ddyletswyddau o dan y Ddeddf VAWDASV i Awdurdodau Lleol parthed adrodd ar y nifer mewn addysg, a gweithredu hyfforddiant 'Gofynnwch a Gweithredwch' a mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan.

Synergedd a chysylltiadau â theithiau eraill



Taith tuag at Gymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang
Pwnc 2: Dinasyddiaeth ac arweinyddiaeth fyd-eang

Gwneud **Newidiadau** Syml

st

Dylai awdurdodau lleol dddadansoddi data bwlio a gesglir gan ysgolion, yn cynnwys bwlio ar sail hil i nodi tueddiadau a helpu i sefydlu datrysiadau, yn unol â'u cyfrifoldebau o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Cynorthwywch ddyddiau agored neu ymweliadau ag addoldai yn eich ardal i ddatblygu dealltwriaeth staff o ddiwylliannau eraill.

ee

E.e. Trefnodd **Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru** ac **Iechyd Cyhoeddus Cymru** daith i bedwar addoldy ar gyfer staff.

CARTREF

Sicrhewch eich bod, pan fyddwch yn gweithio gyda phobl ifanc, yn cynnig cyngor gyrfaoedd sy'n osgoi stereoteipiau'n ymwneud â rhywedd, anabledd a nodweddion gwarchodedig eraill, eich bod yn glir am hawliau cyflogaeth ac yn adlewyrchu natur newidiol gwaith yng Nghymru (a thu hwnt).

Sicrhewch fod yna Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus i aelodau eich staff sy'n gweithio gyda phobl ifanc, o amgylch ymwybyddiaeth o rywedd a stereoteipio heriol.

Anogwch yr ysgolion yr ydych yn gweithio gyda nhw i sefydlu cynllun ail-ddefnyddio gwisgoedd ysgol (neu rywbeth tebyg) i gynorthwyo plant o deuluoedd incwm isel, yn cynnwys y rhai sy'n chwilio am loches.

ee

E.e. Mae Cynllun Ailgylchu Gwisg Ysgol sy'n cael ei redeg gan [Gyngor ar Bopeth, Sir Ddinbych](#), wedi darparu gwisgoedd ysgol diangen i 900 o blant yn Ninbych, Rhuthun a'r Rhyl cyn i'r flwyddyn academiaidd newydd gychwyn.

Gwneud **Newidiadau** Syml

Anogwch yr ysgolion yr ydych yn gweithio gyda nhw i fabwysiadu ymagwedd addysg-gyfan sy'n cynnwys addysg ataliol o fewn a thrwy holl rannau bywyd ysgol a choleg. Mae'r math hwn o ymagwedd, sy'n cynnwys ymgyfraniad y gymuned ehangach, hefyd wedi ei nodi fel peth arwyddocaol mewn perthynas â dysgu negeseuon sy'n atal bwlio ac mewn perthynas ag atal camdrin plant yn rhywiol.

E.e. Cyhoeddodd **Llywodraeth Cymru** [‘Canllawiau Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol’](#) a ddatblygwyd ar y cyd â Chymorth i Fenywod.

ee

St

I gynorthwyo cyflawniad yr ymagwedd addysg-gyfan mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [Pecyn cymorth i Ysgolion sy'n Cyflenwi Adnoddau Addysgol](#), mewn partneriaeth â AVA (Yn Erbyn Trais a Chamdriniaeth).

Dylai awdurdodau lleol fonitro'r camau y maent wedi eu cymryd i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, camdrin domestig a thrais rhywiol drwy eu swyddogaethau addysgol yn cynnwys mewn ysgolion. O dan y Ddeddf Trais yn erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015, gall fod yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi gwybodaeth am y modd y mae eu swyddogaethau ysgol yn cael eu hymarfer, yn cynnwys mewn ysgolion, i hybu pwrpas y Ddeddf.

St

Mae gan **Gyrff Cyhoeddus** ddyletswydd i atal VAWDASV ac amddiffyn a chynorthwyo goroeswyr. O dan y Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol dylai holl staff gwblhau hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o VAWDASV Lefel 1 a dylai staff perthnasol gwblhau hyfforddiant Gofynnwch a Gweithredwch. Dylai holl arweinyddion strategol ymgysylltu â hyfforddiant lefel 6 ar arweinyddiaeth strategol ar VAWDASV.

ee

Bod Yn Fwy Anturus

Gan ystyried y grwpiau o bobl yr ydych yn gweithio gyda nhw, cyflwynwch gynlluniau i gynorthwyo pobl yng nghwintil isaf Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru i gyrraedd eu potensial addysgol.

E.e. **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru'n cyrraedd** eu potensial addysgol.
E.e. y Rhaglen Ymgynraedd yn Ehangach Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Archwiliwch a allech chi ddatblygu rhaglenni mewn carchardai i weithio gyda charcharorion a'u haddysgu.

E.e **Rhaglenni Awdurdod Tân ac Achub De Cymru** o fewn carchardau i weithio gyda ac addysgu charcharorion.

Pan fyddwch yn gweithio gyda phobl ifanc, gwnewch gyfleoedd dysgu am gydraddoldeb a hawliau dynol yn faterion hanfodol yn gynnar yn eu bywyd ac ar draws y cwricwlwm newydd i sicrhau fod addysg yng Nghymru'n cynhyrchu dinasyddion sy'n parchu amrywiaeth, yn deall gwerth hawliau dynol ac yn cymryd rhan yn ein democratiaeth.

Cyhoeddwch wasanaethau cynghori cymunedol gan roi cyngor ar yrfaeod i rai sydd dros 16 mlwydd oed, a'u cysylltu â phrentisiaethau, hyfforddiant a chyflogwyr o safon uchel.

Pan fyddwch yn gweithio gyda phobl ifanc, ystyriwch sut i gynnwys cyfleoedd iddynt i ymarfer ac adeiladu llythrennedd corfforol (a ddiffinnir fel y cymhelliant, hyder, gallu corfforol, dealltwriaeth a gwybodaeth i gynnal gweithgaredd corfforol drwy gydol eu bywydau).

Datblygwch a chyflwynwch weithgareddau corfforol lle mae gan bobl ifanc gyfleoedd i gysylltu ag amrywiaeth eich ardal a'r byd ehangach, dyfnhau eu dealltwriaeth o faterion bydeang a gweithredu arnynt.

Anogwch ysgolion yr ydych yn gweithio gyda nhw i ddod yn 'Ysgol sy'n Parchu Hawliau', gwobr a gyflwynir i ysgolion gan Unicef.

Bod Yn Fwy **Anturus**

ee

E.e. [Ysgol gynradd Birchgrove yn Abertawe.](#)

Galluogwch blant a phobl ifanc i gymryd rhan greadigol mewn dysgu am gydraddoldeb rhwng y rhywiau, rhywioldeb, parch a pherthynas iach rhyngddynt ag eraill.

ee

Datblygwch y Pecyn Cymorth Agenda i Bobl Ifanc a Phecyn Cymorth Agenda Cynradd gan Brifysgol Caerdydd, Comisiynydd Plant, Cymorth i Fenywod ac NSPCC Cymru.

Hyfforddwch eich staff i ddarparu ataliad, amddiffyniad a chymorth i blant a phobl ifanc sy'n cael eu heffeithio gan VAWDASV, yn cynnwys gweithdrefnau adnabod, atgyfeirio a diogelu.

Perchnogi'r Uchelgais

Gweithredu cenedlaethol neu gydweithredol

Ymgorfforwch yrfaeodd ac addysg sy'n berthnasol i waith yn y cwricwlwm newydd i blant 3-16 oed ac adeiladwch gysylltiadau â chyflogwyr i greu profiadau dilys o fyd gwaith.

Gweithredu sefydliadol

Darparwch raglen interniaeth yn eich sefydliad i ddatblygu sgiliau a chymwyseddau ar gyfer pobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

E.e. [Prosiect SEARCH](#) - cydweithrediad rhwng **Llywodraeth Cymru, Grŵp Llandrillo, Coleg Menai** ac eraill gyda **Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**.

Archwiliwch yn egniol gyfleoedd i sefydlu prosiectau a mentrau ar y cyd â nifer mawr o bobl a fydd yn elwa.

E.e. Y prosiect yn [yr Alban](#) lle mae plant yn dysgu sgiliau menter tra'n cynorthwyo pobl leol.

Enghreifftiau ac adnoddau eraill

Canllaw Ymarferol i Lywodraethwyr Ysgol

- Llywodraeth Cymru'n cynorthwyo Llywodraethwyr wrth iddynt sicrhau fod gan eu hysgolion y cymwysterau i gynorthwyo plant a phobl ifanc a staff sy'n cael eu heffeithio gan VAWDASV.

Bydd Llywodraeth Cymru a Chyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru'n cynhyrchu canllaw i gyrff cyhoeddus sefydliadau addysg uwch ac addysg bellach yng Nghymru ar y modd y gallent gyfrannu i ddibenion Deddf VAWDASV (Cymru) 2015). Bydd hyn yn nodi sut fedr sefydliadau Addysg Bellach ac Addysg Uwch gyfrannu at ymagweddau tuag at atal, amddiffyn a chynorthwyo o fewn y Ddeddf.

Datblygwyd y Fenter Ymyrraeth Gwyliedydd gan fyfyrwyr i ennyn ymgysylltiad myfyrwyr a sefydliadau addysg uwch fel pecyn cymorth addysgol ar gyfer atal gorfodaeth rywiol a cham-drin domestig mewn prifysgolion a cholegau.